ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL A THREFNIADAU ETHOLIADOL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

# CYLCH GORCHWYL

**Cyflwyniad**

**Pam rydyn ni'n cynnal yr adolygiad hwn?**

**Beth yw nod yr adolygiad?**

**Beth fydd yn cael ei ystyried o dan yr adolygiad hwn?**

**Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad?**

**Y broses adolygu**

**Cymryd rhan yn yr adolygiad**

**Polisi Maint Cyngor**

**Enwau'r Gymuned a'r Ward Gymunedol**

**Amserlen ar gyfer yr adolygiad**

**Gwybodaeth ategol**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad o Ffiniau Cymunedol a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu adolygiadau cymunedol yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf). O dan y Ddeddf mae gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd gyffredinol i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae gan bob prif gyngor ddyletswydd i fonitro'r cymunedau yn ei ardal a, lle bo'n briodol, trefniadau etholiadol y cymunedau hynny at ddibenion ystyried a ddylid gwneud neu argymell newidiadau. Daw'r newidiadau hyn i fodolaeth trwy adolygiadau o ffiniau cymunedol ac adolygiadau etholiadol cymunedol.

Mae'r Prif Gyngor (y Cyngor) yn cynnal adolygiad o'i drefniadau cymunedol. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal o dan adran 25 a 31 o'r Ddeddf, sy'n ymdrin â'r newidiadau i ffiniau ac unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol, yn ogystal â threfniadau etholiadol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r ffiniau.

Cam cyntaf yr adolygiad yw gofyn i bob parti a chanddynt fuddiant ystyried ffiniau presennol y cymunedau a chyflwyno eu barn ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i greu cymunedau sy'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Yna bydd pob cyflwyniad yn cael ei ystyried, a bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft ac yn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hynny. Yna bydd pob cyflwyniad yn cael ei ystyried, a bydd Cynigion Terfynol yn cael eu cyflwyno i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Yna, os yw'n ystyried yn briodol, bydd y Comisiwn yn cyflawni’r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gyda newidiadau.

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Ionawr 2026 gyda'r argymhellion terfynol wedi'u hamserlennu dros dro i'w cyflwyno i'w mabwysiadu ym mis Gorffennaf 2026.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg a gwybodaeth ategol am yr adolygiad.

### Pam rydyn ni'n cynnal yr adolygiad hwn?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu'r trefniadau cymunedol ar draws ardal y prif gyngor ac i adrodd i'r Comisiwn ar eu trefniadau cymunedol bob deng mlynedd. Nod hyn yw sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

### Beth yw nod yr adolygiad?

Nod y Cyngor yw sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaethau a buddiannau'r cymunedau ar draws ardal y prif gyngor a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus.

Ar ddiwedd adolygiad ffiniau cymunedol o dan adran 25 o Ddeddf 2013, gall y Cyngor argymell i'r Comisiwn "*newidiadau i ffiniau cymunedol y mae'n eu hystyried yn briodol*". Yn y cyd-destun hwn, gall "newid i ffiniau cymunedol" olygu newid i ffin cymuned bresennol, neu ddiddymu cymuned bresennol a/neu greu cymuned newydd.

Os yw'r Cyngor yn argymell newidiadau i ffiniau cymunedol ar ddiwedd adolygiad ffiniau cymunedol, mae ganddo hefyd y pŵer i argymell rhai mathau o newidiadau pellach lle mae'r newidiadau pellach yn *ganlyniad* i'r newidiadau ffiniau. Y newidiadau pellach a ganiateir yw:

- "*newidiadau i gyngor cymuned*", sy'n golygu diddymu cyngor cymuned presennol, sefydlu cyngor cymuned newydd, neu ychwanegu cymunedau at (neu dynnu cymunedau o) gyngor cymuned cyffredin; a

- "*newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol*" un neu fwy o'r cymunedau sy'n cael eu hadolygu neu'r brif ardal. Yn y cyd-destun hwn, mae "trefniadau etholiadol cymuned" yn cyfeirio at nifer aelodau'r cyngor cymuned ac unrhyw drefniadau ar gyfer rhannu'r gymuned yn wardiau at ddibenion etholiadau i'r cyngor cymuned, tra bod gan "drefniadau etholiadol y brif ardal" ystyr cyfatebol ar lefel y prif gyngor.

Nod y Cyngor yw sicrhau bod ffiniau cymunedau yn adlewyrchu hunaniaethau a buddiannau'r cymunedau ar draws ardal y Cyngor ac, yn bwysicaf oll, bod y ffiniau mor ffafriol â phosibl i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Yn gyffredinol, bydd newidiadau i ffiniau cymunedol yn aml yn arwain at newidiadau i boblogaethau'r cymunedau yr effeithir arnynt. Er enghraifft, os caiff ardal ei hymgorffori mewn cymuned newydd oherwydd safle neu gysylltiadau ffyrdd datblygiad tai newydd, bydd yr un ardal honno o reidrwydd yn cael ei chymryd allan o'r gymuned yr oedd yn rhan ohoni o'r blaen. O ganlyniad, gall y gymuned sydd wedi'i hehangu a'r gymuned lai elwa o newidiadau canlyniadol i'w cyngor cymuned a/neu drefniadau etholiadol, yn enwedig os bydd newid yn nifer yr etholwyr llywodraeth leol yn y ddwy gymuned a fydd yn cael ei achosi gan y newid i'r ffin.

Fel rhan o'r adolygiad, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried:

- enw'r gymuned a, lle mae wedi'i rhannu'n wardiau, enw wardiau'r gymuned
- y wardiau sydd wedi'u herio a'r rhai heb eu herio mewn etholiadau cyngor cymuned diweddar

**Beth fydd yn cael ei ystyried o dan yr adolygiad hwn?**
Bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid argymell newidiadau i ffiniau cymunedol a newidiadau canlyniadol eraill, fel y disgrifiwyd uchod.

Yr egwyddor sy'n sail i adolygiad y Cyngor yw ei ddyletswydd gyffredinol i "*geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus*".

Mae'r Cyngor o'r farn bod llywodraeth leol *effeithiol a chyfleus* yn cael ei gwasanaethu gan drefniadau cymunedol sy'n gydlynol yn fewnol, yn yr ystyr bod gan gymunedau gysylltiadau ffyrdd mewnol rhesymol ac yn adlewyrchu patrymau anheddu a rhwyddineb cyfathrebu. Bwriad hyn yw sicrhau y gall pob etholwr yn y gymuned gymryd rhan ym materion a gweithgareddau pob rhan ohoni heb orfod teithio trwy gymuned gyfagos, er enghraifft.

Wrth gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried polisi'r Cyngor ynghylch maint cymunedau yn ei ardal. Caiff hyn ei drafod ymhellach isod, o dan y pennawd “Polisi Maint Cyngor”.

Mae Deddf 2013 yn nodi materion penodol y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth ystyried a ddylid argymell newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymuned.

Yn gyntaf, pan fydd y Cyngor yn ystyried newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned, bydd angen iddo benderfynu a ddylid rhannu'r gymuned yn wardiau at ddibenion etholiadau i'r cyngor cymuned. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried a yw nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol y gymuned yn golygu y byddai un etholiad o gynghorwyr cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, ac a yw'n ddymunol y dylai unrhyw ardal o'r gymuned gael ei chynrychioli ar wahân ar y cyngor cymuned.

Yn ail, os yw'r Cyngor yn penderfynu *na* ddylid rhannu'r cyngor cymuned yn wardiau, bydd angen iddo benderfynu nifer y cynghorwyr ar gyfer y gymuned. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried "nifer a dosbarthiad" etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned, ac unrhyw newid yn y nifer neu'r dosbarthiad hwnnw sy'n debygol o ddigwydd yn y pum mlynedd canlynol.

Yn drydydd, os yw'r Cyngor yn penderfynu *y dylid* rhannu cymuned yn wardiau, bydd angen iddo bennu ffiniau ar gyfer y wardiau a phennu nifer y cynghorwyr cymuned ar gyfer pob ward. Wrth ddatrys y materion hynny, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried priodoldeb pennu ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod, unrhyw gysylltiadau lleol a allai gael eu torri gan ffiniau wardiau penodol, ac unrhyw newid yn nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned sy'n debygol yn y pum mlynedd nesaf.

**Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad?**
Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr adolygiad o dan adran 25 o'r Ddeddf. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd y Cyngor yn cyflwyno argymhellion i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Yna, os yw'n ystyried yn briodol, bydd y Comisiwn yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gyda newidiadau.

**Y broses adolygu**
Yng ngham cyntaf yr adolygiad, mae'r Cyngor yn gofyn i bob parti a chanddynt fuddiant ystyried ffiniau presennol y cymunedau a chyflwyno eu barn ar unrhyw newidiadau a allai fod yn briodol neu'n angenrheidiol er mwyn creu cymunedau sy'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl gyflwyniadau y mae'n eu derbyn yn ystod y cam cyntaf, yna bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer newid y trefniadau cymunedol presennol.

Unwaith y bydd yr Adroddiad Cynigion Drafft wedi'i gyhoeddi, bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion yn yr adroddiad. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, gall aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill a chanddynt fuddiant hysbysu'r Cyngor o'u barn a'u hymatebion i'r cynigion ar gyfer newid a ddisgrifir yn adroddiad y Cyngor. Yna bydd y Cyngor yn ystyried yr holl gyflwyniadau y mae'n eu derbyn mewn ymateb i'w

gynigion, cyn paratoi Argymhellion Terfynol a fydd yn cael eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Yna, os yw'n ystyried yn briodol, bydd y Comisiwn yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gyda newidiadau.

**Cymryd rhan yn yr adolygiad**

Wrth gynnal yr adolygiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd camau gweithredu i:

- hysbysu pobl a chanddynt fuddiant yn yr adolygiad (rhanddeiliaid) am y broses
- rhannu unrhyw gynigion neu argymhellion drafft, a;
- ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar unrhyw gynigion ac argymhellion drafft

Yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd yn ehangach, mae'r Cyngor yn ymgymryd i gyflawni'r dyletswyddau hyn drwy ysgrifennu at:

- Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- Y Cynghorau Cymuned ar draws ardal y prif gyngor
- Aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli'r ardal
- Aelodau o’r Senedd Rhanbarthol yr ardal
- Aelodau o Senedd y DU sy'n cynrychioli'r ardal
- Aelodau Etholedig
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Llywodraeth Cymru
- Undebau Llafur; ac
- Arolwg Ordnans

Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi hysbysiad swyddogol ar wahanol gamau o'r adolygiad, yn adneuo copïau o adroddiadau a dogfennau yn Swyddfeydd Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor ac ar wefan y Cyngor.

Gellir gwneud sylwadau a chyflwyniadau ar ddau gam o'r adolygiad, sef y cyfnodau ymgynghori ar ymchwiliadau cychwynnol a chynigion drafft.

Bydd pob sylw a chyflwyniad yn cael ystyriaeth briodol yn yr adolygiad os bodlonir y meini prawf canlynol:

- Derbynnir sylwadau erbyn 11.59yh o'r dyddiad cau a amserlennwyd
- Derbynnir pob sylw gydag enw a chyfeiriad sy'n nodi'r anfonwr
- Ni dderbynnir cyflwyniadau dienw, er na fydd manylion personol aelodau'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd cyflwyniadau gan gyrff cynrychioliadol a phersonau fel Cynghorwyr ac Aelodau'r Senedd ac ati yn cael eu henwi yn yr adroddiad
- Pan fydd sefydliad neu unigolyn yn gwneud cyflwyniadau ynghylch yr adolygiad, dylent ddangos sut mae cynnal y status quo neu wneud newidiadau yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus

Mae'r Cyngor yn annog cynghorau cymuned, cynrychiolwyr etholedig, partïon a chanddynt fuddiant a'r cyhoedd yn gyffredinol i wneud sylwadau ac awgrymiadau fel rhan o'r broses adolygu. Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ffeithiau sy'n berthnasol i'r materion dan sylw.

Mae'r Cyngor yn gwahodd partïon a chanddynt fuddiant sy'n cefnogi ei gynigion i gyflwyno sylwadau ochr yn ochr â'r rhai sy'n gwrthwynebu neu'n ystyried bod atebion eraill yn well, fel bod gan y Cyngor farn gwbl wybodus o farn leol ynghylch y materion dan sylw. Mae'r Cyngor hefyd yn gwahodd y rhai sy'n gwrthwynebu ei gynigion i gyflwyno awgrymiadau amgen, gyda thystiolaeth ategol.

**Polisi Maint Cyngor**
Cynhelir adolygiad cymunedol y Cyngor yn amodol ar adran 25 o'r Ddeddf ac felly bydd yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i ffiniau i sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaethau a buddiannau'r cymunedau ar draws ardal y prif gyngor a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus.

Ni ddylai cyfanswm nifer yr etholwyr o fewn ardal cyngor cymuned fod yn llai na 3,750 o etholwyr; Ar gyfer cynghorau cymuned o lai na 3,750 o etholwyr, ceisir datganiadau o ddiddordeb mewn uno gwirfoddol fel rhan o'r adolygiad, fodd bynnag, dim ond os derbynnir datganiad o ddiddordeb gan y ddau/yr holl gyngor cymuned a fyddai'n cael eu heffeithio gan yr uno y bydd uno yn cael ei symud ymlaen.

Mae'r Cyngor wedi datgan y dylai cymunedau gael eu cynrychioli gan ddim llai na 7 cynghorydd a dim mwy na 26 cynghorydd.

Mae'r prif gyngor hefyd wedi datgan y dylai'r gymhareb o gynghorwyr i etholwyr fod yn 1:650 ac yn seiliedig ar raddfa symudol fel y nodir yn y tabl canlynol:

| Nifer yr Etholwyr yn y Cyngor Cymuned | Nifer y Cynghorwyr Cymunedol |
|---|---|
| 0 – 4,000 | 7 |
| 4,001 – 6,000 | 7 – 9 |
| 6,001 – 8,000 | 9 – 12 |
| 8,001 – 10,000 | 12 – 15 |
| 10,001 – 12,000 | 15 – 18 |
| 12,001 – 14,000 | 18 – 21 |
| 14,001 – 16,000 | 21 – 24 |
| 16,001 plus | 24 – 26 |

**Enwau'r Gymuned a'r Ward Gymunedol**
Wrth greu unrhyw enwau newydd, bydd y Cyngor yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg (CyG). Mae CyG yn gyfrifol am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru. Mae CyG wedi cynnull Panel Safoni Enwau Lleoedd i ddarparu argymhellion a chyngor arbenigol yn y maes hwn. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Panel yn dilyn canllawiau safoni cenedlaethol ac mae hefyd yn ystyried ystyr, hanes a tharddiad enwau lleoedd, yn ogystal â'u defnydd. Cynhwysir CyG fel ymgynghorai gorfodol yn yr adolygiad.

**Amserlen ar gyfer yr adolygiad**

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Ionawr 2026 gyda'r argymhellion terfynol wedi'u hamserlennu dros dro i'w cyflwyno i'r Comisiwn ym mis Gorffennaf 2026. Byddai unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r broses adolygu wedyn yn dod i rym ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2027.

| **Cam Gweithredu** | **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Dechrau'r Adolygiad a'r cyhoeddusrwydd cychwynnol | | Ionawr 2026 |
| Cyhoeddusrwydd cychwynnol ac adborth a gasglwyd | 6 wythnos | Ionawr - Mawrth 2026 |
| Cyhoeddi Cynigion Drafft | | Mai 2026 |
| Ymgynghoriad ar Gynigion Drafft | 6 wythnos | Mai - Mehefin 2026 |
| Cyflwyno'r Argymhellion Terfynol | | Gorffennaf 2026 |

**Gwybodaeth Atodol**

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r adolygiad, gan gynnwys ffigurau etholwyr, map o ffiniau presennol y cymunedau a chanllawiau, ar gael ar wefan y Cyngor.